

Sut i gymryd rhan yn A Passion for Life yn ystod 2021

Oherwydd y mae Ef wedi dirymu
marwolaeth, a dod â bywyd ac
anfarwoldeb i'r golau trwy'r Efengyl.
2 Tim 1:10

Menter yw 'A Passion for Life' sy'n annog eglwysi ar draws Cymru, y DU ac Iwerddon i gynllunio ymgyrch ar y cyd ar gyfer y mis yn arwain at y Pasg 2022.

Dyma rai ffyrdd y gallwch fod yn rhan o'r fenter a pharatoi yn ystod 2021:

Mawrth - Mai, 2021

Yn hanner cyntaf y flwyddyn bydd y ffocws ar sicrhau bod arweinwyr eglwysi lleol yn:

- Ymwybodol o 'Passion for Life 2022' ac yn dechrau paratoi ar ei gyfer.
- Asesu a buddsoddi yn niwylliant efengylu ein heglwysi lleol.

Fel arweinwyr eglwysi lleol efallai y byddwch yn dymuno:

- Rhannu'r daflen wybodaeth hon gyda'ch rhwydweithiau gweinidogaethol, eich tîmau arwain a gyda'r rhai yn eich eglwysi sydd â baich efengylu.
- Annog pawb sydd a diddordeb i gofrestru ar www.apassionforlife.org.uk er mwyn derbyn y wybodaeth ddiweddaraf.
- Neilltuo amser mewn cyfarfodydd arweinwyr neu frawdoliaeth er mwyn gweddïo ar i Arglwydd y cynhaeaf fendithio'n helaeth.
- Penodi amser yn eich calendr ar gyfer hyfforddiant efengylu personol (Tymor yr hydref 2021) ac ar gyfer yr ymgyrch ei hun (y mis cyn y Pasg, 2022).
- Ymuno â gweminarau 'A Passion for Life' i weddïo gyda'n gilydd ac er mwyn dysgu gan arweinwyr eraill.
- Ymuno yn y sgwrs ar grwp Facebook 'A Passion for Life'.

Adnoddau fydd ar gael, os Duw a'i myn:

- Cyfres bodlediad gydag arweinwyr o amrywiol sefyllfaoedd yn cymryd rhan
- Cyfarfodydd gweddi
- Gweminarau a blogiau yn trafod diwylliant efengylu

Mehafin - Gorffennaf 2021

Bydd y ffocws yn symud i:

- Godi ymwybyddiaeth o fewn eglwysi a chynulleidfaoedd lleol
- Cynllunio'r hyfforddiant a'r ymgyrch yn fanwl.

Efallai y bydd arweinwyr yn dymuno:

- Cynllunio pa agweddau ar efengylu personol sydd ei angen ar eich eglwys a phryd sydd orau i wneud yr hyfforddiant
- Trefnu siaradwyr ar gyfer mis yr ymgyrch
- Defnyddio adnoddau hyrwyddo a thystiolaethau i ennyn brwdfrydedd o fewn yr eglwys

Adnoddau fydd ar gael, os Duw a'i myn:

- Fideo i ysbrydoli aelodau eglwysi lleol trwy gyflwyno'r hyn sy'n digwydd ar draws Cymru, y DU ac Iwerddon
- Taflen yn nodi pa sesiynau hyfforddi efengylu fydd ar gael
- Erthyglau yn rhannu syniadau efengylu er mwyn helpu arweinwyr i gynllunio'r ymgyrch
- Rhestr o siaradwyr a syniadau am digwyddiadau

Medi - Rhagfyr 2021

Rydym yn gweddïo y bydd momentwm yn tyfu ar draws Cymru, y DU ac Iwerddon wrth i eglwysi dderbyn mwy o wybodaeth a hyfforddiant.

Efallai y bydd arweinwyr yn dymuno:

- Ysbrydoli'r eglwys leol trwy rannu tystiolaethau am bobl ledled y wlad sy'n hyfforddi i efengylu
- Hyfforddi'r aelodau i fynd ar 'daith ysbrydol gyda phobl i'w harwain at fywyd yng Nghrist'

Adnoddau fydd ar gael, os Duw a'i myn:

- Dewis eang o sesiynau hyfforddi efengylu i'w cynnal gyda'ch eglwys leol
- Cronfa o dystiolaethau gan Gristnogion o gefndiroedd amrywiol
- Adnoddau efengylu ar gael i'w harchebu

Am ragor o wybodaeth ewch i

please visit apassionforlife.org.uk